**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 2731 (Cy.238)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Deddf Ymaelodi ynghylch y Weriniaeth Tsiec a Gwladwriaethau Eraill) (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1**. Mae'r Rheoliadau hyn, mewn perthynas â Chymru yn unig, yn diwygio'r ddeddfwriaeth fwyd a bennir isod a wnaed yn angenrheidiol drwy ddiwygiadau i ddeddfwriaeth fwyd y Gymuned Ewropeaidd gan y Rheoliadau hynny a wnaed gan Ddeddf y Gymuned Ewropeaidd ynghylch amodau derbyn y Weriniaeth Tsiec, Gweriniaeth Estonia, Gweriniaeth Cyprus, Gweriniaeth Latfia, Gweriniaeth Lithiwania, Gweriniaeth Hwngari, Gweriniaeth Malta, Gweriniaeth Gwlad Pwyl, Gweriniaeth Slofenia a Gweriniaeth Slofacia a'r addasiadau i'r Cytuniadau y seiliwyd yr Undeb Ewropeaidd arnynt (OJ Rhif L236, 23.9.2003, t.33) ("y Ddeddf").

**2**. Mae'r Rheoliadau -

(a) yn rheoliad 5 (labelu bwydydd sydd wedi'u rhewi'n gyflym) o Reoliadau Bwydydd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym 1990 (O.S. 1990/2615, fel y'u diwygiwyd eisoes).

(i) yn ychwanegu diffiniad o "Council Directive 89/108/EEC", a

(ii) drwy hynny'n ychwanegu at restr yr ieithoedd (o dan baragraffau (2) a (3) o'r rheoliad hwnnw) y gellir dangos bod y bwyd o dan sylw wedi'i rewi'n gyflym ynddynt, ieithoedd Gwladwriaethau penodol sydd, yn rhinwedd y Ddeddf, yn dod yn Aelod-wladwriaethau newydd o'r

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 2731 (W.238)

# FOOD, WALES

## The Food Safety (Act of Accession concerning the Czech Republic and other States) (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2004

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

**1**. These Regulations make, in relation to Wales only, amendments to the food legislation specified below which are necessitated by amendments to the European Community food legislation implemented by those Regulations made by the Act of the European Community concerning the conditions of accession of the Czech Republic, the Republic of Estonia, the Republic of Cyprus, the Republic of Latvia, the Republic of Lithuania, the Republic of Hungary, the Republic of Malta, the Republic of Poland, the Republic of Slovenia and the Slovak Republic and the adjustments to the Treaties on which the European Union is founded (OJ No. L236, 23.9.2003, p.33) ("the Act").

**2**. The Regulations -

(a) in regulation 5 (labelling of quick-frozen foodstuffs) of the Quick-Frozen Foodstuffs Regulations 1990 (S.I. 1990/2615 as already amended) -

(i) add a definition of "Council Directive 89/108/EEC", and

(ii) thereby add to the list of languages in which (under paragraphs (2) and (3) of that regulation) it may be indicated that the food concerned is quick-frozen, the languages of certain of the States which, by virtue of the Act, become new Member States of the European Community

Gymuned Ewropeaidd (rheoliad 2);

(b) yn diwygio is-baragraff (2) o baragraff 1 o Atodlen 10 (marcio cynhyrchion wyau) i Reoliadau Cynhyrchion Wyau 1993 (O.S. 1993/1520 fel y'i diwygiwyd eisoes) drwy roi manylion diwygiedig yn lle'r manylion (o dan baragraffau (a)(ii) a (b)(iii) o'r is-baragraff hwnnw) sy'n ofynnol, i bob llwyth o gynhyrchion wyau sy'n gadael sefydliad, i gael eu pennu ar label sy'n ymwneud â'r llwyth o dan sylw (rheoliad 3);

(c) ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli) o Reoliadau Labelu Bwyd 1996 (O.S. 1996/1499, fel y'i diwygiwyd eisoes) -

(i) yn diweddaru'r diffiniad o "Directive 2000/13" drwy gynnwys cyfeiriad at y Ddeddf yn y rhestr ddeddfwriaeth sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2000/13/EC (OJ Rhif L109, 6.5.2000, t.29), a

(ii) drwy hynny yn estyn rhychwant yr amddiffyniad ar allforion yn rheoliad 47 o'r Rheoliadau hynny drwy ei wneud yn gymwys os yw'r tramgwydd a gyhuddir yn ymwneud â'r gofyn i labelu yn y Rheoliadau ynghylch y dyddiad "use by" neu'r gofyn i labelu ynghylch bwyd a arbelydrwyd, y mae'r Wladwriaeth gyrchfan yn Wladwriaeth AEE a'i deddfwriaeth yn cydymffurfio â'r gofyniad cyfatebol a osodir yng Nghyfarwyddeb 2000/13/EC (fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf er mwyn darparu y caiff y labelu o dan sylw fod yn iaith un o'r Aelod-wladwriaethau penodol) (rheoliad 4);

(ch) yn diwygio is-baragraff (1) o baragraff 2 o Atodlen 3 (cynhyrchu cynhyrchion pysgodfeydd ac amodau eu rhoi ar y farchnad (a seiliwyd ar ddarpariaethau cyfatebol yr Atodiad i Gyfarwyddeb Cynhyrchion Pysgodfeydd)) i Reoliadau Diogelwch Bwyd (Cynhyrchion Pysgodfeydd a Physgod Cregyn Byw) (Hylendid) 1998 (O.S. 1998/994 fel y'i diwygiwyd eisoes) drwy roi manylion diwygiedig yn lle'r manylion (o dan indent cyntaf a thrydydd indent yr is-baragraff hwnnw) sy'n ofynnol, i bob llwyth o gynhyrchion pysgodfeydd a anfonir o sefydliad, i gael eu pennu ar label sy'n ymwneud â'r llwyth o dan sylw neu yn y dogfennau sydd gyda'r llwyth (rheoliad 5);

(d) yn rheoliad 2 (dehongli) o Reoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000 (O.S. 2000/1866 (Cy.125)) yn diweddaru'r diffiniadau o "y Gyfarwyddeb" drwy gynnwys cyfeiriad at y Ddeddf yn y rhestr ddeddfwriaeth sy'n diwygio Cyfarwyddeb y Comisiwn 1999/21/EC ar fwydydd deietegol at ddibenion meddygol arbennig (OJ Rhif L91, 7.4.1999, t.29) (rheoliad 6); ac

(regulation 2);

(b) amend sub-paragraph (2) of paragraph 1 of Schedule 10 (marking of egg products) to the Egg Products Regulations 1993 (S.I. 1993/1520 as already amended) by substituting revised particulars for the particulars which (under paragraphs (a) (ii) and (b) (iii) of that sub-paragraph) are required, for each consignment of egg products leaving an establishment, to be specified in a label relating to the consignment concerned (regulation 3);

(c) in paragraph (1) of regulation 2 (interpretation) of the Food Labelling Regulations 1996 (S.I. 1996/1499 as already amended) -

(i) update the definition of "Directive 2000/13" by including in the list of legislation which amends Directive 2000/13/EC (OJ No. L109, 6.5.2000, p.29) reference to the Act, and

(ii) thereby extend the coverage of the exports defence in regulation 47 of those Regulations by making it apply where the offence charged relates to the labelling requirement in the Regulations concerning the "use by" date or to the labelling requirement concerning irradiated food, the destination State is an EEA State and its legislation complies with the corresponding requirement laid down in Directive 2000/13/EC (as amended by the Act so as to provide that the labelling concerned may be in the language of one of certain of the new member States) (regulation 4);

(d) amend sub-paragraph (1) of paragraph 2 of Schedule 3 (production and placing on the market conditions for fishery products (based on the corresponding provisions of the Annex to the Fishery Products Directive)) to the Food Safety (Fishery Products and Live Shellfish) (Hygiene) Regulations 1998 (S.I. 1998/994 as already amended) by substituting revised particulars for the particulars which (under the first and third indents of that sub-paragraph) are required, for each consignment of fishery products despatched from an establishment, to be specified in a label relating to the consignment concerned or in the accompanying documents (regulation 5);

(e) in regulation 2 (interpretation) of the Medical Food (Wales) Regulations 2000 (S.I. 2000/1866 (W.125)) update the definition of "the Directive" by including in the list of legislation which amends Commission Directive 1999/21/EC on dietary foods for special medical purposes (OJ No. L91, 7.4.1999, p.29) reference to the Act (regulation 6); and

(dd) ym mharagraff (b) o reoliad 8 (amddiffyniad mewn perthynas ag allforion) o Reoliadau Llaeth Cyddwys a Llaeth Sych (Cymru) 2003 (O.S. 2003/3053 (Cy.291)) -

(i) diweddaru'r cyfeiriad at Gyfarwyddeb y Cyngor 2001/114 EC ynghylch llaeth penodol wedi'i breserfio a'i ddadhydradu yn llwyr neu'n rhannol i'w fwyta neu i'w yfed gan bobl (OJ Rhif L15, 17.1.2002, t.19) drwy ychwanegu cyfeiriad at y diwygiad o'r Gyfarwyddeb honno gan y Ddeddf, a

(ii) drwy hynny yn estyn rhychwant yr amddiffyniad ar allforion yn rheoliad 8 o'r Rheoliadau hynny drwy ei wneud yn gymwys os yw'r tramgwydd a gyhuddir yn ymwneud ag un o'r gofynion a geir i labelu yn rheoliadau 4 a 5 o'r Rheoliadau hynny ynghylch defnyddio disgrifiadau a neilltuwyd, y mae'r Wladwriaeth gyrchfan yn Wladwriaeth AEE a'i deddfwriaeth yn cydymffurfio â'r gofyniad cyfatebol a osodir yng Nghyfarwyddeb 2000/114/EC (fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf er mwyn darparu y caiff y labelu o dan sylw fod yn iaith un o'r Aelod-wladwriaethau penodol) (rheoliad 7).

**3**. Nid oes arfarniad rheoliadal wedi'i baratoi mewn perthynas â'r offeryn hwn gan na fydd ganddo effaith ar gostau busnes.

(f) in paragraph (b) of regulation 8 (defence in relation to exports) of the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2003 (S.I. 2003/3053 (W.291)) -

(i) update the reference to Council Directive 2001/114 EC relating to certain partly or wholly dehydrated preserved milk for human consumption (OJ No. L15, 17.1.2002, p.19) by adding reference to the amendment of that Directive by the Act, and

(ii) thereby extend the coverage of the exports defence in regulation 8 of those Regulations by making it apply where the offence charged relates to one of the labelling requirements in regulations 4 and 5 of those Regulations concerning the use of reserved descriptions, the destination State is an EEA State and its legislation complies with the corresponding requirement laid down in Directive 2001/114/EC (as amended by the Act so as to provide that the labelling concerned may be in the language of one of certain of the new member States) (regulation 7).

**3**. A full regulatory appraisal has not been produced for this instrument as it has no impact on the costs of business.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 2731 (Cy.238)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Deddf Ymaelodi ynghylch y Weriniaeth Tsiec a Gwladwriaethau Eraill) (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *19 Hydref 2004* |
| *Yn dod i rym* | *31 Hydref 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**a**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972(**b**) mewn perthynas â mesurau sy'n gysylltiedig â bwyd (gan gynnwys diod), a chan gynnwys camau cynradd cynhyrchu bwyd, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno, ac ar ôl yr ymgynghori sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**c**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Deddf Ymaelodi ynghylch y Weriniaeth Tsiec a Gwladwriaethau Eraill) (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004, byddant yn gymwys i Gymru yn unig, a deuant i rym ar 31 Hydref 2004.

**Diwygio Rheoliadau Bwydydd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym 1990**

**2**.-(1) I'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, diwygir Rheoliadau Bwydydd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym 1990(**ch**) yn unol â pharagraff (2).

(a) O.S.2003/2901.

(b) 1972 p. 68.

(c) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.

(d) O.S.1990/2615, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 2731 (W.238)

# FOOD, WALES

## The Food Safety (Act of Accession concerning the Czech Republic and other States) (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2004

| | |
|---|---|
| *Made* | *19 October 2004* |
| *Coming into force* | *31 October 2004* |

The National Assembly for Wales, being designated(**a**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**b**) in relation to measures relating to food (including drink) including the primary production of food, in exercise of the powers conferred by that section, after consultation as required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(**c**), makes the following Regulations:

**Title, application and commencement**

**1**. These Regulations may be cited as the Food Safety (Act of Accession concerning the Czech Republic and other States) (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2004, apply in relation to Wales only and come into force on 31 October 2004.

**Amendment of the Quick-frozen Foodstuffs Regulations 1990**

**2**.-(1) Insofar as they apply in relation to Wales, the Quick-frozen Foodstuffs Regulations 1990(**d**) are amended in accordance with paragraph (2).

(a) S.I. 2003/2901.

(b) 1972 c. 68.

(c) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1.

(d) S.I. 1990/2615, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(2) Yn rheoliad 5 (labelu bwydydd sydd wedi'u rhewi'n gyflym), mewnosoder y paragraff a ganlyn ar y diwedd-

"(5) In this regulation "Council Directive 89/108/EEC" means Council Directive 89/108/EEC on the approximation of the laws of Member States relating to quick-frozen foodstuffs for human consumption(**a**) as amended by amendments up to and including those effected by the Act of the European Community concerning the conditions of accession of the Czech Republic, the Republic of Estonia, the Republic of Cyprus, the Republic of Latvia, the Republic of Lithuania, the Republic of Hungary, the Republic of Malta, the Republic of Poland, the Republic of Slovenia and the Slovak Republic and the adjustments to the Treaties on which the European Union is founded(**b**).".

**Diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Wyau 1993**

**3**.-(1) I'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, diwygir Rheoliadau Cynhyrchion Wyau 1993(**c**) yn unol â pharagraff (2).

(2) Ym mhob un o baragraffau (a)(ii) a (b)(iii) o is-baragraff (2) o baragraff 1 o Atodlen 10 (marcio cynhyrchion wyau) amnewidir y rhestr ganlynol o fyrfoddau yn lle'r rhestr bresennol o fyrfoddau a geir ym mhob un o'r paragraffau hynny: "CEE - EØF - EWG - EOK - EEC - EEG - ETY - EHS - EMÜ - EEK - EEB - EGK - KEE - EGS".

**Diwygio Rheoliadau Labelu Bwyd 1996**

**4**.-(1) I'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, diwygir Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(**ch**) yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn y diffiniad o "Directive 2000/13" ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli), mewnosoder yr ymadrodd "the Act of the European Community concerning the conditions of accession of the Czech Republic, the Republic of Estonia, the Republic of Cyprus, the Republic of Latvia, the Republic of Lithuania, the Republic of Hungary, the Republic of Malta, the Republic of Poland, the Republic of Slovenia and the Slovak Republic and the adjustments to the Treaties on which the European Union is founded" yn union o flaen y geiriau "and as read with".

(a) OJ Rhif L40, 11.2.89, t.34.

(b) OJ Rhif L236, 23.9.2003, t.33.

(c) O.S. 1993/1520, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(ch) O.S. 1996/1499, a ddiwygiwyd gan O.S. 2004/249 (Cy.26); y mae offerynnau diwygio eraill i'w cael, ond heb fod yr un ohonynt yn berthnasol.

(2) In regulation 5 (labelling of quick-frozen foodstuffs), insert at the end the following paragraph -

"(5) In this regulation "Council Directive 89/108/EEC" means Council Directive 89/108/EEC on the approximation of the laws of Member States relating to quick-frozen foodstuffs for human consumption(**a**) as amended by amendments up to and including those effected by the Act of the European Community concerning the conditions of accession of the Czech Republic, the Republic of Estonia, the Republic of Cyprus, the Republic of Latvia, the Republic of Lithuania, the Republic of Hungary, the Republic of Malta, the Republic of Poland, the Republic of Slovenia and the Slovak Republic and the adjustments to the Treaties on which the European Union is founded(**b**).".

**Amendment of the Egg Products Regulations 1993**

**3**.-(1) Insofar as they apply in relation to Wales, the Egg Products Regulations 1993(**c**) are amended in accordance with paragraph (2).

(2) In each of paragraphs (a)(ii) and (b)(iii) of sub-paragraph (2) of paragraph 1 of Schedule 10 (marking of egg products) substitute the following list of abbreviations for the existing list of abbreviations set out in each of those paragraphs: "CEE - EØF - EWG - EOK - EEC - EEG - ETY - EHS - EMÜ - EEK - EEB - EGK - KEE - EGS".

**Amendment of the Food Labelling Regulations 1996**

**4**.-(1) Insofar as they apply in relation to Wales, the Food Labelling Regulations 1996(**d**) are amended in accordance with paragraph (2).

(2) In the definition of "Directive 2000/13" in paragraph (1) of regulation 2 (interpretation) insert the phrase "the Act of the European Community concerning the conditions of accession of the Czech Republic, the Republic of Estonia, the Republic of Cyprus, the Republic of Latvia, the Republic of Lithuania, the Republic of Hungary, the Republic of Malta, the Republic of Poland, the Republic of Slovenia and the Slovak Republic and the adjustments to the Treaties on which the European Union is founded" immediately before the words "and as read with".

(a) OJ No. L40, 11.2.89, p.34.

(b) OJ No. L236, 23.9.2003, p.33.

(c) S.I. 1993/1520, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(d) S.I. 1996/1499, amended by S.I. 2004/249 (W.26); there are other amending instruments but none is relevant.

**Diwygio Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Cynhyrchion Pysgodfeydd a Physgod Cregyn Byw) (Hylendid) 1998**

**5**.-(1) I'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, diwygir Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Cynhyrchion Pysgodfeydd a Physgod Cregyn Byw) (Hylendid) 1998(**a**) yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Yn indent cyntaf paragraff 2(1) o Ran I o Bennod VII o Atodlen 3 (cynhyrchu cynhyrchion pysgodfeydd ac amodau eu rhoi ar y farchnad), rhoddir y rhestr ganlynol o fyrfoddau yn lle'r rhestr bresennol o fyrfoddau sydd i'w chael yn yr indent hwnnw: "B / CZ / DK / D / EE / EL / E / F / IRL / I / CY / LV / LT / L / HU / MT / NL / AT / PL / P / SI / SK / FI / SE / UK".

(3) Yn nhrydydd indent paragraff 2(1) o Ran I o Bennod VII o Atodlen 3, rhodder y rhestr ganlynol o fyrfoddau yn lle'r rhestr bresennol o fyrfoddau sydd i'w cael yn yr indent hwnnw: "CE - EC - EG - EK - EF - EY - ES - EÜ - KB - KE - WE".

**Diwygio Rheoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000**

**6**.-(1) Diwygir Rheoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000(**b**) yn unol â pharagraff (2).

(2) Ar ddiwedd y diffiniad o "y Gyfarwyddeb" a geir yn rheoliad 2 (dehongli), mewnosoder y testun a ganlyn-

"fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gymuned Ewropeaidd ynghylch amodau derbyn y Weriniaeth Tsiec, Gweriniaeth Estonia, Gweriniaeth Cyprus, Gweriniaeth Latfia, Gweriniaeth Lithiwania, Gweriniaeth Hwngari, Gweriniaeth Malta, Gweriniaeth Gwlad Pwyl, Gweriniaeth Slofenia a Gweriniaeth Slofacia, a chan yr addasiadau i'r Cytuniadau sy'n sail i'r Undeb Ewropeaidd".

**Diwygio Rheoliadau Llaeth Cyddwys a Llaeth Sych (Cymru) 2003**

**7**.-(1) Diwygir Rheoliadau Llaeth Cyddwys a Llaeth Sych (Cymru) 2003(**c**) yn unol â pharagraff (2).

(2) Ar ddiwedd rheoliad 8(b), mewnosoder y testun a ganlyn-

"fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gymuned Ewropeaidd ynghylch amodau derbyn y Weriniaeth Tsiec, Gweriniaeth Estonia, Gweriniaeth Cyprus, Gweriniaeth Latfia, Gweriniaeth Lithiwania, Gweriniaeth Hwngari, Gweriniaeth Malta, Gweriniaeth Gwlad Pwyl, Gweriniaeth Slofenia a Gweriniaeth Slofacia, a chan yr addasiadau i'r

(a) O.S. 1998/994, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(b) O.S. 2000/1866 (Cy.125).

(c) O.S. 2003/3053 (Cy.291).

**Amendments to the Food Safety (Fishery Products and Live Shellfish) (Hygiene) Regulations 1998**

**5**.-(1) Insofar as they apply in relation to Wales, the Food Safety (Fishery Products and Live Shellfish) (Hygiene) Regulations 1998(**a**) are amended in accordance with paragraphs (2) and (3).

(2) In the first indent of paragraph 2(1) of Part I of Chapter VII of Schedule 3 (production and placing on the market conditions for fishery products) substitute the following list of abbreviations for the existing list of abbreviations set out in that indent: "B / CZ / DK / D / EE / EL / E / F / IRL / I / CY / LV / LT / L / HU / MT / NL / AT / PL / P / SI / SK / FI / SE / UK".

(3) In the third indent of paragraph 2(1) of Part I of Chapter VII of Schedule 3 substitute the following list of abbreviations for the existing list of abbreviations set out in that indent: "CE - EC - EG - EK - EF - EY - ES - EÜ - KB - KE - WE".

**Amendment of the Medical Food (Wales) Regulations 2000**

**6**.-(1) The Medical Food (Wales) Regulations 2000(**b**) are amended in accordance with paragraph (2).

(2) At the end of the definition of "the Directive" in regulation 2 (interpretation) insert the following text -

"as amended by the Act of the European Community concerning the conditions of accession of the Czech Republic, the Republic of Estonia, the Republic of Cyprus, the Republic of Latvia, the Republic of Lithuania, the Republic of Hungary, the Republic of Malta, the Republic of Poland, the Republic of Slovenia and the Slovak Republic and the adjustments to the Treaties on which the European Union is founded".

**Amendment of the Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2003**

**7**.-(1) The Condensed Milk and Dried Milk (Wales) Regulations 2003(**c**) are amended in accordance with paragraph (2).

(2) At the end of regulation 8(b) insert the following text -

"as amended by the Act of the European Community concerning the conditions of accession of the Czech Republic, the Republic of Estonia, the Republic of Cyprus, the Republic of Latvia, the Republic of Lithuania, the Republic of Hungary, the Republic of Malta, the Republic of Poland, the Republic of Slovenia and the Slovak Republic and

(a) S.I. 1998/994, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(b) S.I. 2000/1866 (W.125).

(c) S.I. 2003/3053 (W.291).

Cytuniadau sy'n sail i'r Undeb Ewropeaidd".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

19 Hydref 2004

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

the adjustments to the Treaties on which the European Union is founded".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

19 October 2004

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 2731 (Cy.238)

# BWYD, CYMRU

Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Deddf Ymaelodi ynghylch y Weriniaeth Tsiec a Gwladwriaethau Eraill) (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 2731 (W.238)

# FOOD, WALES

The Food Safety (Act of Accession concerning the Czech Republic and other States) (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2004

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091007-9

9 780110 910079

£3.00

W154/10/04 ON